

PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

15 Gorffennaf 2020

Yn bresennol: Cynghorydd R Owens (Cadeirydd)

Cynghorydd P Baker, Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Cynghorydd P Harries, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland

[Cyfarfod Rhithiol 10.00am – 11.20am]

1. Ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb wrth Dr RM Plummer.

2. Datgelu buddiant

Datgelodd yr Aelod(au)/Swyddog(ion) canlynol fuddiant yn y cais (ceisiadau) a/neu'r mater(ion) y cyfeirir atyn nhw isod:

Cais a Chyfeirnod	Aelod(au)/Swyddog(ion)	Gweithred
<i>Cofnod 7 isod</i> NP/19/0539/FUL – Apple Tree Gallery, Saundersfoot	Cynghorydd P Baker	Datgelu buddiant personol felly arhosodd yn y cyfarfod.

3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 10 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020 eu cyflwyno i'w cadarnhau a'u dilysu.

PENDERFYNWYD cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Mehefin, 10 Mehefin a 1 Gorffennaf 2020.

NODWYD.

4. Hawl i siarad yn y Pwyllgor

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Cadeirydd bod rhybuddion priodol (cyn y dyddiad sydd wedi ei nodi) wedi dod i law oddi wrth bartïon a oedd yn dymuno defnyddio eu hawl i siarad yn y cyfarfod y diwrnod hwnnw. Yn unol â phenderfyniad Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Rhagfyr 2011, rhoddir yr hawl i siaradwyr i annerch am bum munud. (mae'r bartïon oedd â diddordeb wedi'u rhestru isod gyferbyn â'u cais (ceisiadau) penodol, ac yn y drefn y buon nhw'n cyfarch y Pwyllgor):



Rhif cyfeirnod
NP/20/0222/FUL
Cofnod 6(a)
cyfeir

Cynnig
Gosod ceblau trydan dan ddaear (yn cynnwys baeau uniadau dan ddaear ac un piler cyswllt uwchben) a cheblau ffibr optig dan ddaear; creu safle adeiladu dros dro a ffyrdd cludo deunyddiau adeiladu - Safle llinol yn ymestyn o'r gwastadeddau tywod rhynglanwol yn Freshwater West i Neath Farm, Rhoscrowdder, Penfro

Siaradwr
Mr Tom
Brinicombe,
ymgeisydd

5. Dyletswyddau'r Aelodau wrth Benderfynu Ceisiadau

Roedd adroddiad y Cyfreithiwr yn crynhoi swyddogaeth y Pwyllgor oddi fewn i'r gyfundrefn gynllunio, yn amlinellu pwrpas y gyfundrefn gynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth benderfynu, dyletswydd yr Awdurdod i gyflawni datblygiadau cynaliadwy, ystyriaethau hawliau dynol, canllawiau'r Awdurdod i aelodau ynghylch penderfyniadau yn y pwyllgor, a hefyd yn gosod allan rhai amgylchiadau lle gellid gosod costau yn erbyn yr Awdurdod mewn apêl.

Roedd un Aelod am eglurder ynghylch ffin ddaearyddol ardal cyfrifoldeb yr Awdurdod fel awdurdod cynllunio. Cadarnhawyd bod ffin y Parc Cenedlaethol, fel roedd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth, yn dod i ben wrth ddŵr isel cymedrig; y tu hwnt i hynny rhaid cael trwydded forol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

NODWYD

6. Adroddiad Ceisiadau Cynllunio

Bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau manwl yr Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau a adroddwyd ar lafar ar y diwrnod ac sydd wedi'u cofnodi isod. Penderfynodd y Pwyllgor y cais yn y modd canlynol (nodir y penderfyniad yn dilyn y manylion a nodir am y cais):



- (a) CYFEIRNOD: NP/20/0222/FUL
YMGEISYDD: Mr T Brinicombe
CYNNIG: Gosod ceblau trydan dan ddaear (yn cynnwys baeau uniadau dan ddaear ac un piler cyswllt uwchben) a cheblau ffibr optig dan ddaear; creu safle adeiladu dros dro a ffyrdd cludo deunyddiau adeiladu.
LLEOLIAD: Safle llinol yn ymestyn o'r gwastadeddau tywod rhynglanwol yn Freshwater West i Neath Farm, Rhoscrowdder, Penfro

Adroddwyd bod y prosiect hwn yn cynnig rhyng-gysylltydd trydan tanfor a thanddaear i gysylltu'r marchnadoedd pŵer yn Iwerddon a Phrydain. Byddai Greenlink (yr ymgeisydd) yn darparu cysylltiad grid newydd rhwng Swydd Wexford (Iwerddon) ac is-orsaf y Grid Cenedlaethol ym Mhenfro. Byddai'r pŵer yn gallu llifo i'r naill gyfeiriad neu'r llall, yn dibynnu ar y cyflenwad a'r galw ym mhob gwlad.

Yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor penderfynwyd cynnal arolwg safle rhithiol ar gyfer y cais hwn ac roedd cofnodion y cyfarfod hwnnw wedi'u cymeradwyo yn gynharach yn y cyfarfod (Cofnod 3 cyfeir). Roedd y cais gerbron y Pwyllgor am fod angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar y datblygiad, roedd wedi'i nodi'n gais o bwys ac roedd hefyd o ddiddordeb cyhoeddus.

Esboniodd yr adroddiad y byddai'r ceblau'n cael eu gosod trwy ddrilio ar draws o dan ddaear a thrwy agor ffos a'i llenwi, gyda'r rhan gyntaf rhwng y distyll cymedrig a'r safle ar y tir yn cael ei wneud trwy ddrilio o dan y ddaear am fod yr ardal hon yn hynod sensitif o ran tirwedd. Âi yn ei flaen i esbonio'r materion allweddol i'w hystyried gan ddod i'r casgliad, o ystyried polisïau Lleol a Chenedlaethol a phob ystyriaeth berthnasol arall, bod y datblygiad yn darparu cynllun ynni tra byddai'n cynnal nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, ac na fyddai'n effeithio ar breifatrwydd na mwynder cymdogion. O'r herwydd, ac yn ddibynnol ar atodlen o amodau priodol, roedd y datblygiad yn dderbyniol. Argymhellwyd, ar yr amod na fyddai gwrthwynebiadau perthnasol yn codi o'r ymatebion ymgynghorol nad oedd wedi'u derbyn, y dylid neilltuo'r cais i swyddogion i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau oedd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Yn y cyfarfod cynghorodd y Swyddog bod ymatebion ymgynghoriad Cadw a Chyngor Cymuned Angle yn dal heb ddod i law. Cadarnhawyd bod y ddau yn ymwybodol o'r cais, gan fod Cadw wedi cynnig sylwadau yn ystod camau cynharach y broses ac Angle wedi danfon e-bost yn gofyn am eglurhad ynghylch cyfeiriad y drilio. O ran y pryderon a fynegwyd gan Valero, cadarnhaodd yr asiant na fyddai llwybr y cebl yn croesi unrhyw bibellau sydd mewn defnydd. Er hynny byddai'r ceblau'n cael eu gosod mewn dwythellau ac yn cael eu rheoli'n thermol er mwyn rheoli gwaredu



gwres. Ni ragwelid y byddai unrhyw effaith ar gnydau yn y cyffiniau. Byddid hefyd yn cymryd mesurau i reoli cywasgu pridd a bioamrywiaeth.

O ran materion a godwyd gan Aelodau yn yr Arolwg Safle rhithiol cynghorodd y swyddog bod yr AC lleol a'r AS wedi'u cynghori y byddai'r cais yn cael ei ystyried gan yr Awdurdod y bore hwnnw. Roedd trafodaethau gyda'r asiant wedi cadarnhau y byddai angen pystion marcio (mwyafswm o 600mm uwchlaw'r ddaear) i ddangos lleoliad y ceblau dan ddaear ar fannau croesi allweddol, ac roedd lluniadau dangosiadol a map o'r lleoliadau wedi'u cyflwyno. Fodd bynnag, byddai amod yn cael ei gynnwys gydag unrhyw ganiatâd yn ymwneud â'u dyluniad terfynol a'u lleoliad. Roedd yr Asiant hefyd wedi cadarnhau y byddai'r piler cyswllt yn adeiledd cadarn wedi'i gloi na fyddai angen unrhyw ffensio ar ei gyfer. Yn olaf, rhagwelid pan fyddai'r gwaith wedi'i gwblhau y byddai'r tir lle byddai ffos wedi'i thorri yn cael ei lenwi a'i ddychwelyd i'r perchennog tir fel tir amrwd iddyn nhw gael ei reoli yn hytrach na'i ail-hadu.

O ran yr amodau sydd wedi'u gosod allan yn yr adroddiad, cynghorodd y swyddog bod angen amodau ychwanegol o ran cynllun archeolegol o archwilio a manylion y piler cyswllt a'r pystion marcio i'w cytuno.

Roedd yna un siaradwr, Mr Tom Brinicombe, yr ymgeisydd. Esboniodd bod y cwmni o'r dechrau wedi mabwysiadu agwedd agored o ran cyfathrebu gydag ymgynghorwyr statudol a'r gymuned leol, ac roedd o'r farn bod y cynigion yn sensitif ac wedi'u dylunio'n dda. O'r funud y dewiswyd Freshwater West fel y safle roedden nhw'n ei ffafrio, dechreuodd yr ymgynghori gyda rhanddeiliaid, ac roedd nifer o faterion wedi'u codi o ganlyniad, yn arbennig cadw mynediad ar hyd y ffordd B4320 a sensitifrwyd a phwysigrwyd y traeth a'r twyni o ran bywyd gwyllt a hamdden. O ganlyniad ac yn dilyn arolygon geodechnegol a geoffisegol roedd y cwmni wedi ymrwymo i gwblhau'r adrannau hyn trwy ddefnyddio Drilio Cyfeiriadol Llorweddol, yn ogystal â defnyddio'r un dull o dan ardal goediog fechan. Roedden nhw hefyd wedi cytuno i beidio â chyflawni unrhyw waith ym misoedd Gorffennaf ac Awst.

Roedd pryderon wedi'u mynegi y gallai'r cebl ddod yn fwy gweladwy ar y traeth, ond roedd yn bwysig iawn i'r cwmni na fyddai hynny'n digwydd, am ei fod yn cael ei ystyried yn adeiledd pwysig cenedlaethol. Roedd dau arolwg topograffyddol wedi'u gwneud, un yn dilyn storm a oedd wedi gwaredu deunyddiau o'r traeth, ac roedd y rhain wedi galluogi penderfyniad ynghylch dyfnder y ceblau, ac roedd yr ymgeisydd yn hyderus na fydden nhw'n dod i'r golwg.

Wrth gydnabod pwysigrwyd Valero fel cyflogwr lleol rhoddodd Mr Brinicombe sicrwydd i'r Aelodau y byddai'r bibell pwysedd uchel wedi'i diogelu gydol y broses adeiladu ac roedd y cwmnïau yn y broses o



gwblhau cytundeb diogelu asedau; byddai yna gyfathrebu cyson gyda'r cwmni.

O ran y raddfa amser rhagwelwyd y byddai'r safle yn ei le am dri mis ond byddai'r tywydd yn un o'r ffactorau fyddai'n penderfynu pa mor hir y cymerai i gwblhau'r gwaith. Byddai'r drilio cyfeiriadol yn cymryd oddeutu pythefnos a byddai yna raglen adeiladu yn mynd yn ei blaen yr un pryd i dorri a llenwi ffosydd. Ond byddai'r cwmni'n parhau i gyfathrebu gyda rhanddeiliaid lleol ac yn cymryd gofal i ddiogelu ansawdd y Parc Cenedlaethol trwyddi draw.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch diogelwch defnyddwyr traeth tra bo drilio o dan ddaear ar y gweill, yn arbennig am y gallai'r prosiect greu cryn ddiddordeb yn lleol, a sicrhodd Mr Brincombe hwy oherwydd dyfnder y drilio ni fyddai angen cau'r traeth ac na fyddai yna ddirgryniadau i'w teimlo ar yr wyneb. Rhagwelai y byddai staff yn bresennol pan fyddai'r ceblau'n cael eu tynnu trwyddo i sicrhau y byddai'r cyhoedd yn cadw o fewn pellter diogel. Ychwanegodd bod y cwmni yn agored i awgrymiadau er mwyn mwyhau cyfleoedd addysgiadol y prosiect. Wrth gyfeirio at y dyfnder o 10m y ceblau gofynnodd un Aelod am sicrwydd bod hwn yn gyfeiriad at bwynt seilnod.

Holodd Aelod arall am botensial cyflogaeth y prosiect ac atebodd Mr Brincombe y rhagwelid y byddai'r hyn fyddai'n cyfateb i 250 o swyddi llawn amser yn cael eu creu yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect, a bod Llywodraeth Cymru'n awyddus i fuddiannau'r prosiect gael eu rhannu yn yr economi lleol.

Cafodd yr argymhelliad o ddirprwyo cymeradwyaeth ei gynnig a'i eilio, a chadarnhaodd yr Aelodau hynny bod eu cynnig yn ddibynnol ar yr amodau diwygiedig y cyfeiriwyd atyn nhw gan y swyddog. Cyn i unrhyw bleidleisio digwydd atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cyfreithiwr bod yn rhaid i Aelodau fod yn bresennol yn ystod y drafodaeth gyfan cyn bwrw pleidlais: hyd yn oed os oedden nhw wedi mynd o olwg y camera roedd yn ofynnol eu bod wedi clywed pob dim gafodd ei ddweud.

Roedd rhai Aelodau am gael eu sicrhau ynghylch grymyster yr amod yn ymwneud â'r cynllun archeolegol ysgrifenedig o archwilio a'r hyn fyddai'n cael ei wneud pe bai yna rhywbeth o arwyddocâd yn cael ei ddarganfod gan awgrymu y dylai fod yna archeolegydd ar y safle tra bo'r gwaith torri ffosydd ar y gweill. Esboniodd y Swyddogion y byddai Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn ymwneud ag asesu'r cynllun ysgrifenedig o archwilio ac y byddai hyn yn cynnwys trefniant wrth gefn pe deuid o hyd i ddarganfyddiad arwyddocaol.



PENDERFYNIAD: Bod y cais, ar yr amod na fyddai yna wrthwynebiadau perthnasol yn codi o'r ymgynghoriadau na dderbyniwyd hyd yn hyn, yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr / Cyfarwyddwr Cynllunio / Arweinydd Tîm i roi caniatâd cynllunio yn dibynnu ar gadw at amodau yn ymwneud ag amseru, yn unol â chynlluniau a dogfennau, Cynllun Rheoli Trafnidiaeth Adeiladu, Cynllun Rheoli Ecolegol Tirwedd, Cynllun Dull Amgylcheddol Adeiladu, goleuo, lliniaru, cynllun tirwedd, llygredd, dad-gomisiynu, cynllun archeolegol ysgrifenedig o archwilio a manylion y piler cyswllt a phystion marcio.

7. Apeliadau

Adroddodd Arweinydd y Tîm Rheoli Datblygu am dair apêl (yn erbyn penderfyniadau cynllunio'r Awdurdod) oedd wedi'u penderfynu'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, ac roedd copïau o benderfyniadau'r Arolygwr wedi'u hatodi i'r adroddiad

Roedd NP/19/0530/FUL Meadow Farm, North Cliffe, Dinbych-y-pysgod wedi'i ganiatáu (nid ei wrthod fel y nodwyd yn yr adroddiad), tra bo NP/19/0539/FUL Apple Tree Gallery, The Ridgeway, Saundersfoot a EC/19/0097 3 The Glen, Aber bach wedi'u gwrthod.

Wrth fynegi pryder ynghylch caniatáu apêl Meadow Farm, anogodd un Aelod y swyddogion i fonitro'r amodau oedd yn ffurfio rhan o'r caniatâd yn ofalus iawn, yn arbennig rheiny'n ymwneud â thirwedd, o gofio bod y safle mewn man mor amlwg.

NODWYD.

